

<b>Pwyllgor</b>	<b>Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi</b>
<b>Teitl yr Adroddiad</b>	<b>Diweddariad Gwasanaeth Anghenion Dysgu a Chynhwysiad Gwynedd a Môn</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>21/11/2019</b>
<b>Swyddog Perthnasol</b>	<b>Ffion Edwards Ellis Uwch Reolwr ADY a CH</b>
<b>Aelod Cabinet Perthnasol</b>	<b>Cynghorydd Cemlyn Rees Williams</b>

## **1. CEFNDIR**

- 1.1 Bu i Wasanaeth ADY a CH Gwynedd a Môn gael ei ffurfio yn dilyn Adolygiad Strategol (Gwedd 1). Mae 2 flynedd ers i'r gwasanaeth ar y cyd i gael ei ffurfio ym Mis Medi 2017.
- 1.2 Mae'r Gwasanaeth ADY a CH yn cynnwys is dimau sydd yn gyfrifol am feysydd penodol – gweler Atodiad 1 am y Strwythur Gwasanaeth.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn wedi ei lunio yn dilyn cais i ddiweddarau o ran datblygiad y tîm, a'r newidiadau deddfwriaethol.
- 1.4 Mae Gwedd 2 o'r Adolygiad Strategol yn parhau i dargedu ffrydiau penodol o waith er mwyn ymbaratoi at Ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu newydd. Roedd disgwyl i'r Ddeddf a'r Cod ddod yn weithredol ym Mis Medi 2020, fodd bynnag, yn dilyn cyfnod o ymgynghori ar y Cod mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi oediad i ddod a'r ddeddf yn weithredol. Bydd y Ddeddfwriaeth yn awr yn dod yn weithredol ym Mis Medi 2021, gyda'r rolau statudol angen bod mewn lle ym Mis Ionawr 2021 (gweler Atodiad 2)

## **2. PWRPAS Y GWASANAETH ADY A CH**

- 2.1 Pwrpas y Gwasanaeth ADY a Ch yw hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd a Mon.
- 2.2 Mae'r Gwasanaeth yn gwneud hyn trwy gefnogi Ysgolion Cynradd ac Uwchradd i roi'r mewnbwn ac ymyrraeth briodol mewn lle ar gyfer y plant a phobl ifanc sydd angen dulliau gwahanol o gynhaliath er mwyn cael mynediad i addysg. Mae'r mewnbwn ac ymyrraeth sydd yn cael ei gynnig yn ddibynnol ar lefel a math angen y person ifanc.
- 2.3 Mae mesuryddion y gwasanaeth yn mesur yn erbyn y pwrpas hwn. Mae mesurydd 'TOMS' (Therapy Outcome Measures) wedi cael ei ddefnyddio, ac yn parhau i gael ei ddatblygu, ar draws timau. Mae hyn yn ein galluogi i edrych ar gynnydd y plentyn cyfan. Mae yna fesuryddion eraill hefyd, e.e. Proffil Boxall, asesiadau safonedig llythrennedd a rhifedd, sydd yn benodol ar gyfer timau penodol.

## **3. YMWELIAD DELYTH GRAY (ESTYN) 15.10.19**

- 3.1 Ar y 15.10.19 bu ymweliad gan Delyth Gray (Estyn) a'r Gwasanaeth. Yn ystod yr ymweliad fe fu cyfle i gyflweld a rheolwyr ar arweinwyr tim er mwyn craffu ar ansawdd a phrosesau gweithredu'r gwasanaeth. Mae'r canfyddiadau a rannwyd fel a ganlyn:

### 3.2 Cryfderau:

- 3.2.1 Y ddwy sir wedi llwyddo i greu gwasanaeth, a oedd yn edrych yn eithriadol o heriol i'w gyflawni dwy flynedd yn ôl. Mae'r ddwy sir yn cydweithio, a'r gwasanaeth wedi gwreiddio, mae ysgolion yn ymwybodol o'r gofynion gyda'r bobl iawn yn y llefydd iawn o fewn y strwythur, ac yn cydweithio fel un tîm.
- 3.2.2 Un Tîm, Un Weledigaeth, Un Gwasanaeth.
- 3.2.3 Pob aelod o staff yn dangos ymwybyddiaeth o'i rôl, a sut mae'r rôl yn ffitio i'r darlun mawr
- 3.2.4 Pawb yn angerddol yn eu gwaith - ac yn deall eu rôl.
- 3.2.5 Atebolrwydd yn glir.
- 3.2.6 Trefniadaeth a phrosesau o ran y fforymau ardal / paneli a Byrddau Rheoli a Phrosiect yn synhwyrol o ran yr ardaloedd daearyddol. Synnwyr cyffredin yn cael ei ddefnyddio o ran trefn/amserlen y cyfarfodydd.
- 3.2.7 Mae'r Staff yn gosod disgwyliadau uchel o'u hunain ac ysgolion - yn troi'r cwestiwn ar ei ben i Ysgolion, a gofyn beth ydych chi wedi gwneud eisoes? Y ddwy sir wedi buddsoddi llawer mewn Hyfforddiant / arweiniad ac arfer dda i Ysgolion, ac mae hyn yn cryfhau'r gallu i gynyddu'r disgwyliadau ar ysgolion.
- 3.2.8 Swyddogion Ansawdd - cryfder amlwg o fewn rôl y Gwasanaeth yma. Maent wedi llwyddo i gael ysgolion i weithio ar y cyd gyda hwy o ran yr agenda ansawdd. Mae'r Swyddogion Ansawdd yn monitro gwaith ei gilydd ac yn herio ei gilydd - hyn yn sicrhau ansawdd o fewn y tîm. Mae Ysgolion yn deall y rôl.
- 3.2.9 Gwell dealltwriaeth gan ysgolion o'r disgwyliadau arnyn nhw a'r atebolrwydd – llwyddiant allweddol yn hyn i gyd.
- 3.2.10 Dim aelod o staff yn cyfeirio at ardal nhw (Gwynedd neu Môn) - cyfleu eu bod yn gwasanaethu'r ardal eang fel un tîm.
- 3.2.11 Gwasanaeth Llechen Lan yn ymddangos yn gryfder o ran darpariaeth. Y cynnig yno i ymweld yn y dyfodol pe bydden ni yn gweld hyn yn ddefnyddiol. Y nifer cyfeirio at Llechen Lan yn isel ac yn dangos effaith y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar.
- 3.2.12 Falch o glywed bod ysgolion yn gwneud mwy o symudiadau trwy drefniant a chanmoliaeth o ran y gyda ffurflen / prosesau / panel - prosesau clir o gwmpas hyn. Rôl y Swyddog Lles Cynhwysiad yn heriol, ond yn gryfder, ac angen ystyried capasiti.

### 3.3 Heriau

- 3.3.1 Blaenoriaeth o ran sylw - Cynhwysiad Blwyddyn 9 a Chyfnod Allweddol 4. Hyn yn rhywbeth sydd ar y gweill.
- 3.3.2 Ystyried ehangu defnydd holiaduron barn rhanddeiliad ehangach, rhieni a phlant a phobl ifanc

## 4. Crynhoi Llwyddiannau Cynllun Busnes 2018-2019

<b>Ansawdd a Gweinyddol</b>	Proses monitro darpariaeth a chymorth ADY wedi ei threialu ar gyfer cynorthwyo penderfyniadau Panel Cymedroli (h.y. Panel sydd yn gwneud penderfyniad i barhau neu i addasu cymorth unigolion). Y broses yma yn cael ei hymestyn eleni er mwyn sicrhau fod yr adnoddau cywir yn y lleoliad cywir.
-----------------------------	---

	<p>System Cynllun Datblygu Unigol electroneg ar gael i bob ysgol erbyn hyn. Mae'r system yn galluogi cyd-awduro rhwng ysgol, rhiant ac asiantaethau eraill.</p> <p>Gwefan Rhieni ac Ysgolion: Gwefan Rhieni yn fyw eisoes. Bydd y wefan Ysgolion, sydd yn cynnwys Adnoddau, ar gael o fis Rhagfyr ymlaen.</p> <p>Niferoedd cyfeiriadau Fforwm a Phanel wedi sefydlogi ac yn dangos ymwybyddiaeth o'r Meini Prawf.</p> <p>Proses monitro dangosyddion ansawdd ('Ragio') yn parhau i ddangos gwybodaeth werthfawr ynglŷn ag ysgolion sydd angen mewnbwn pellach ar gyfer darpariaeth ADY a CH. Mae hyn yn clymu gyda'r broses monitro ansawdd yn sirol.</p>
<p><b>Seicoleg Addysgol</b></p>	<p>Camau wedi eu cymryd i ymdrin ag anawsterau recriwtio presennol a dyfodol, trwy benodi Seicolegwyr Addysgol Cynorthwyol.</p> <p>Prosiectau ymchwil yn cymryd lle fel rhan o waith creiddiol y tîm.</p> <p>Ysgolion sy'n Annog (National Nurturing Schools Programme) – pob ysgol uwchradd yn cymryd rhan yn y cynllun 3 blynedd gyda Dirprwy Brif Seicolegydd yn arwain.</p> <p>Therapy Outcome Measures yn dangos effaith positif ar achosion llynedd gyda 82.4% o achosion yn dangos cynnydd boddhaol i dda iawn.</p>
<p><b>Anghenion Dysgu Ychwanegol</b></p>	<p>Anghenion Dysgu Penodol: Nifer cyfeiriadau plant unigol yn gostwng, ond ceisiadau am hyfforddiant yn cynyddu. Hyn yn arwydd o gryfhau ar y lefel darpariaeth Ysgol.</p> <p>Synhwyradd Corfforol a Meddygol: Mesuryddion mynediad gwasanaeth yn cael eu defnyddio yn gyson, cynllun hyfforddiant cymorthyddion yn gweithio yn effeithiol.</p> <p>Cyfathrebu a Rhyngweithio: Pob dalgylch wedi derbyn hyfforddiant Ysgolion Cyfathrebu Gyfeillgar Cynradd, ymyraethau ychwanegol yn cael eu cynnig (e.e. Yotism sydd yn loga ar gyfer unigolion ar y Sbectrwm Awtistig), llif rhwng ymyraethau'r gwasanaeth (e.e. Canolfannau, Ymestyn allan Cymhorthydd, a mewnbwn Ymgynghorol) yn esmwyth,. Cyd weithio agos gyda'r Tîm Cynhwysiad o ran hyfforddiant MAPA. Mae gwybodaeth TOMS y gwasanaeth yn dangos cynnydd da neu dda iawn gyda 92% o achosion.</p> <p>ABC: Gwasanaeth ADY meithrin erbyn hyn wedi ei ail-strwythuro, ac yn rhan o'r Gwasanaeth ADY a CH.</p>

<p><b>Cynhwysiad</b> <b>(Ymyrraeth Gynnar/Llechen Lan/Pecyn 25)</b></p>	<p>Trefn Fforymau a Phanel Cynhwysiad wedi ei sefydlu ac yn gadarn. Pwyslais ar gefnogi ysgolion i ddangos beth ydyw ei gweithredu cychwynnol.</p> <p>Hyfforddiant MAPA (Management of Actual or Potential Aggression) yn parhau i gael ei gynnig i unrhyw ysgol sydd ei angen i gyd fynd gyda mewnbwn llawr dosbarth.</p> <p>Ymweliadau GWE wedi adnabod arfer dda o fewn y ddarpariaeth Llechen Lan. Mae pob un o'r 16 disgybl sydd wedi derbyn mewnbwn Llechen Lan wedi trosglwyddo yn llwyddiannus yn ôl i'w hysgol prif lif, gyda chymorth trosglwyddo gan y gwasanaeth.</p> <p>Cyfarfod Cyswllt Cynhwysiad, sydd yn galluogi trafodaeth amlasiantaethol ynglŷn ag achosion anodd wedi ei ffurfio (Aelodaeth yn cynnwys Gwasanaethau Plant, CAMHS, Cyfiawnder Ieuencid).</p>
<p><b>Cwmsela</b></p>	<p>Rhesymoli Rhestrau aros yn parhau i gael ei weithredu ac yn cael effaith.</p> <p>Grant Lles Llywodraeth Cymru hyd at Fawrth 2019, ar gyfer cwmselwyr am gael ei ddefnyddio i ymestyn gwaith y tîm, lleihau rhestr aros, a galluogi ymchwilio i fodelau gwahanol o weithredu.</p>
<p><b>Lles Addysg</b></p>	<p>Heriau staffio yn parhau, ond wedi sbarduno trafodaethau ynglŷn â fformiwla dyraniad y tîm ar draws y ddwy sir fydd yn dod i rym ym Mis Ionawr. Bydd hyn y cael effaith gadarnhaol ar lwyth gwaith y tîm.</p> <p>Presenoldeb yn parhau yn foddhaol iawn a gyda'r uchaf yng Nghymru.</p>

#### **4. BLAENORIAETHAU GWEITHREDU 2019-2020**

**Dyma grynodedb o flaenoriaethau gweithredu sydd wedi cael eu hadnabod o fewn Cynlluniau Busnes presennol:**

- 4.1 Parhau gyda gwaith Gwedd 2 o ran paratoi at y Ddeddfwriaeth newydd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar ochr gyfreithiol y Ddeddfwriaeth, a'r anghenion hyfforddiant ogwmpas hynny. Hefyd yn edrych ar y dulliau cyllidol ogwmpas diwallu'r gofynion.
- 4.2 Ymestyn y broses monitro ansawdd o fewn yr Uwchradd
- 4.3 Peilota hyfforddiant Ysgolion Cyfathrebu Gyfeillgar Uwchradd
- 4.4 Gwaith ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol a'r Tîm Anghenion Dysgu Penodol ar gyfer creu achrediad Ysgol o gwmpas dogfen Hunan Asesu ADP (anawsterau llythrennedd a rhifedd).
- 4.5 Parhau i gefnogi ac ymestyn y cynllun Ysgolion sy'n Annog yn yr Uwchradd, a'r cynradd.
- 4.6 Ymestyn a chysoni defnydd TOMS ymhellach.
- 4.7 Parhau gyda'r gwaith o edrych ar y ddarpariaeth cynhwysiad ym Mlwyddyn 9, 10 ac 11.

